

BCP21-006-04-00 Taenlen Cyfyngiadau SDO

Cyf.	Math o Gyfyngiad/ Amod Adeiladu	Terfyn / Cyfyngiad Arfaethedig	Rhesymeg / Asesiad
C.1	Oriau adeiladu	Bydd y gwaith adeiladu wedi'i gyfyngu i 0700 - 1900 o'r gloch, dydd Llun i ddydd Gwener, a 0700 - 1300 o'r gloch ar ddydd Sadwrn. Bydd unrhyw waith y tu allan i'r oriau hyn yn amodol ar gymeradwyaeth Adran 61.	Heb ei liniaru, gallai gwaith adeiladu 24/7 achosi effaith niweidiol arwyddocaol ar dderbynyddion preswyl cyfagos, yn enwedig oherwydd bod y lefelau sŵn sylfaenol presennol yn isel, ac mae unrhyw weithgareddau adeiladu yn y nos yn debygol o achosi niwsans i dderbynyddion. Mae hyn yn amodol ar gytundeb Adran 61 gyda'r awdurdod lleol, ond maen nhw eisoes wedi dynodi y byddent yn bwriadu dilyn y trywydd hwn.
C.2	Terfynau sŵn adeiladu a dirgryniad	Mae terfynau sŵn adeiladu a dirgryniad i'w gosod yn unol â B55228. Bydd unrhyw sŵn a allai fynd yn fwy na'r terfynau hyn yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth trwy gais Adran 61.	Gallai torri terfynau sŵn adeiladu a dirgryniad achosi effaith niweidiol arwyddocaol ar y derbynyddion agosaf. Dylid defnyddio arfer gorau (er enghraifft, cynnal y gweithgareddau mwyaf swllyd yn ystod y dydd yn unig ac mae'n rhaid i oleuadau dros dro yn y nos fod ar lefel isel, yn gyfeiriadol a than gwfl) cyn ceisio cais Adran 61.
C.3	Niwsans golau	Dylid defnyddio goleuadau adeiladu pan fydd angen yn unig, a dylent fod yn gyfeiriadol, dan gwfl ac ar lefel mor isel ag sy'n ymarferol.	Mae goleuadau'n debygol o gael effaith yn ystod y cam adeiladu o ystyried y cwynion a dderbyniwyd ynghylch y defnydd presennol o'r safle. Mae cyfyngiad ar oleuadau wedi'i osod ar wahân yma fel cyfyngiad newydd, oherwydd bod cwynion yn debygol os na fydd mesurau lliniaru ar gyfer goleuadau adeiladu.
Datblygiad Adeiledig			
B.1	Uchder mwyaf adeiladau	Bydd uchder adeiladau'n cael ei gyfyngu yn yr ardaloedd a amlygir ar luniad yr Amlen Gydsynio [Dogfen Rhif: BCP21-006-05-00]	Er mwyn sicrhau bod effeithiau gweledol ar amwynder, y dirwedd a threftadaeth yn cael eu lleihau i derfynau derbyniol, bydd parthau ar waith sy'n nodi uchder mwyaf adeiladau/AOD, fel a ganlyn: - Byddai uchder adeiladau ym Mharth A (cornel ogledd-ddwyreiniol uchaf) hyd at 23 AOD - Byddai uchder adeiladau ym Mharth B (yn union wrth ymyl Parth A) hyd at 28 AOD - Byddai uchder adeiladau ym Mharth C (i'r gorllewin a'r de o'r safle) hyd at 33 AOD Mae'r cynllun wedi'i leoli gyferbyn â Siambr Gladdu Trefignath, felly mae unrhyw seilwaith ym Mharth A wedi cael ei leihau gymaint ag sy'n ymarferol i leihau'r effeithiau ar yr ased o ganlyniad i newid o fewn ei leoliad. Bydd glaswellt cyfnerthedig hydraiddd a ffensys/plannu yn cael eu cyflwyno yn y parth hwn hefyd fel mesurau dylunio/liniaru i leihau'r effeithiau. Mae colofnau goleuadau'n achosi llai o effaith weledol oherwydd eu bod yn gul, felly nid ydynt yn ddarostyngedig i'r parthau uchod. Wrth i'r dyluniad symud ymlaen, bydd union uchder adeiladau'n cael ei leihau lle bynnag y bo'n bosibl. Byddai unrhyw beth uwch na'r uchderau a nodir yn y parth yn cael mwy o effaith weledol ymwithiol yn lleoliad y siambr gladdu ac ar dderbynyddion tirwedd amgylchynol, a allai sbarduno effaith arwyddocaol o bosibl.
B.2	Osgoi brigiad caregog	Ni cheir gwneud unrhyw waith o fewn ffin y brigiad caregog fel y'i hamlygir yn lluniad yr Amlen Gydsynio [Dogfen Rhif: BCP21-006-05-00]	Mae'r brigiad caregog yn cynnwys rhyogaethau botanegol prin, mae'n fath o gynefin Pwysig lawn fel y'i rhestrir yn Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Cynefinoedd Brigiadau Caregog a Sgrî Mewndirol) ac ystyrir ei fod o werth ecolegol uchel yn genedlaethol. Mae hefyd yn hanfodol er mwyn sgrinio'r safle i'r dwyrain, gan felly sicrhau bod effeithiau ar y dirwedd a'r AHNE yn cael eu lleihau hefyd. Mae effeithiau ar dreftadaeth wedi'u lleihau gan fod amddiffyn yr ardal hon yn helpu i leihau newid yn lleoliad Siambr Gladdu Trefignath.
B.3	Ardal ddatblygadwy	Bydd adeiladau a lloiau caled wedi'u cyfyngu i'r ardal a amlygir yn lluniad yr Amlen Gydsynio [Dogfen Rhif: BCP21-006-05-00]	Byddai unrhyw ddatblygiad y tu allan i'r ardal ddatblygadwy yn cynyddu risg effeithiau arwyddocaol ar fioamrywiaeth, amwynder preswyl, golygfeydd, yr effaith ar yr AHNE a lleoliad asedau treftadaeth cyfagos gan gynnwys Siambr Gladdu Trefignath. Mae'n hanfodol bod y llystyfiant sy'n weddill yn cael ei gadw (yn enwedig y bwnd coed ar hyd y ffiniau deheuol a gorllewinol a'r brigiad caregog) er mwyn cadw nodweddion sgrinio presennol a chynefin pwysig. Bydd cyflwyno llawr caled ychwanegol y tu allan i'r ardal gyfyngedig yn arwain at golli mwy o fannau gwyrdd, a lle i blannu tirwedd er mwyn meddalau effaith y cynllun. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn y gornel ogledd-orllewinol lle mae cyfyngiadau ar ddatblygu'n hollbwysig i leihau newid i'r eithaf yn lleoliad Siambr Gladdu Trefignath fel nad yw'r effaith yn dod yn arwyddocaol. Nid yw'r cyfyngiad ar yr ardal ddatblygadwy yn cynnwys tirweddau. Diffinnir llawr caled fel ffordd, adeiladau, ac unrhyw beirinnau cysylltiedig. Tybir nad llawr caled yw glaswellt cyfnerthedig hydraiddd. Ni fydd unrhyw llawr caled ychwanegol yn cael ei gyflwyno y tu allan i'r ardal ddatblygadwy. Mae hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod asesiadau treftadaeth, ecoleg a thirwedd yn gallu dod i'r casgliad na fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol. Byddai llawr caled ychwanegol yn cynyddu'r angen am ddraenio ac yn erydu'r ardaloedd sy'n weddill y tu allan i'r ardal ddatblygadwy sy'n ofynnol ar gyfer tirweddau, gwelliannau ac i sicrhau bod effeithiau gweledol yn cael eu lleihau i lefelau derbyniol.
B.4	Ffensys/Triniaethau Ffiniau	Bydd ffensys diogelwch yn cael eu gorffen mewn lliw addas a amlygwyd ar y palet yn yr Asesiad Lliwiau Amgylcheddol [Dogfen Rhif: BCP21-002-04-03]	Mae hyn yn angenrheidiol i leihau unrhyw effaith ar y dirwedd a derbynyddion treftadaeth i'r eithaf. O ran treftadaeth, mae hyn yn ofynnol fel nad yw'r ffensys gyferbyn â Siambr Gladdu Trefignath yn negyddu mesurau lliniaru eraill sydd ar waith i leihau newid o fewn ei lleoliad. Mae hyn yn angenrheidiol i leihau'r effeithiau a sicrhau nad oes effaith arwyddocaol. O ran y dirwedd, bydd angen i'r Asesiad Lliwiau Amgylcheddol ddiffinio lliw llai ymwithiol er mwyn lleihau effeithiau gweledol, yn enwedig ar gyfer golygfeydd tua'r ardal Orllewin-De-Orllewin.
B.5	Gorffeniadau'r ffurf adeiledig	Bydd lliw adeiladau yn un o'r lliwiau a amlygir ar y palet yn yr asesiad Lliwiau Amgylcheddol yn unig [Dogfen Rhif: BCP21-002-04-03]	Cwblhawyd Asesiad Lliwiau Amgylcheddol a astudiodd y lliwiau yn y dirwedd ac a roddodd ddealltwriaeth o'r lliwiau cydrannol sy'n dylanwadu ar gymeriad y dirwedd ac amwynder gweledol yr ardal o olygfannau cynrychioliadol allweddol. Bydd canlyniadau'r Asesiad Lliwiau Amgylcheddol yn cael eu defnyddio i lywio unrhyw fesurau lliniaru i helpu i leihau unrhyw rai o effeithiau gweledol niweidiol y datblygiad arfaethedig ar yr AHNE a chymeriad tirwedd yr ardal. Bydd yr asesiad hefyd yn helpu i leihau ymwithiad gweledol ar leoliad asedau treftadaeth cyfagos. Bydd palet lliwiau'r adeiladau'n cael ei ddewis i gyd-fynd â'r ardal gymaint â phosibl.
B.6	Ffurio mynedfa/allanfa	Mae'n rhaid i'r brif fynedfa gerbydol i'r safle fod trwy fynedfa bresennol ffordd feingefn Parc Cybi. Mae'n rhaid i unrhyw fynedfeydd ychwanegol fod ar gyfer defnydd mewn argyfwng yn unig a pheidio â chael eu ffurfio o ddeunydd llawr caled.	Mae angen y cyfyngiad hwn gan nad yw'r cynllun terfynau'n egluro'n ddigon pendant mai'r mynedfeydd presennol yn unig a fyddai'n cael eu defnyddio. Petai mynedfa newydd yn cael ei chreu yn yr ardal ddatblygadwy yn y gornel ogledd-orllewinol, gallai hyn sbarduno effeithiau arwyddocaol o ganlyniad i effeithiau ar asedau treftadaeth yn sgil newid i leoliad Siambr Gladdu Trefignath.
B.7	Goleuadau	Ni chaiff colofnau goleuadau fod yn fwy na 15m. Bydd goleuadau'n gyfeiriadol a than gwfl, a byddant mor isel ag sy'n ymarferol. Dylunnir lwcs a gollyngiad golau yn unol â gofynion parth E2 - (Nodyn Canllaw ar Olau Ymwithiol GN01/20 - y Comisiwn Rhyngwladol ar Oleuo, 2020). Er mwyn cynnal coridor tywyll o amgylch perimedr y safle, bydd lefelau lwcs yn 0.74 lwcs ar y mwyaf y tu allan i'r Ardal Ddatblygadwy + 1m. Mae'n rhaid i dymheredd lliw'r goleuadau beidio â mynd yn fwy na 2700 kelvin ac ni fyddai unrhyw oleuadau ar y sbectrwm glas yn cael eu defnyddio er mwyn atal effeithiau niweidiol ar llystyfiant y brigiad caregog.	Mae golau'n ymwithio i'r ardal uniongyrchol eisoes, gan gynnwys ar hyd Ffordd Feingefn Parc Cybi, Road King a Premier Inn. Bydd y dyluniad yn sicrhau nad oes unrhyw ollyngiad golau sylweddol ar y lleiniau tir amgylchynol a'r cynefinoedd ymylol a gedwir, gan felly sicrhau na fydd effeithiau arwyddocaol ar ecoleg, amwynder gweledol ac asedau treftadaeth. Ni fyddai achos gwaethaf o 15m ar gyfer goleuadau'n arwain at unrhyw effeithiau arwyddocaol gan fod y colofnau goleuadau'n llinell gul ac ni fyddent yn dominyddu golygfannau na lleoliad asedau treftadaeth. Mae angen cynnal coridorau tywyll o amgylch perimedr y safle a defnyddio dyluniad goleuadau cyfeiriadol, dan gwfl ar gyfer mamaliaid sy'n teithio - yn enwedig ystlumod, dyfrgwn a moch daear. Mae'r cyfyngiad ar ollyngiad golau yn hanfodol i sicrhau bod y coridorau tywyll hyn yn cael eu cynnal.
B.8	Tirweddau	Bydd byffer tirweddau 10m o leiaf o rywogaethau coed cymysg brodorol yn cael ei blannu rhwng y bwnd coed presennol a'r ardal ddatblygadwy i sgrinio'r datblygiad rhag golygfeydd Gorllewin-De-Orllewin o'r safle o dderbynyddion gweledol sensitif sy'n byw mewn eiddo preswyl cyfagos. Tua ran ddwyreiniol y safle, bydd y byffer tirweddau'n cynnwys dwy elfen linol, un i'r de o'r brif ffordd fyndiad a rhan arall yn gyfochrog â'r bwnd coed presennol. Bydd y ddwy elfen gyda'i gilydd, ar unrhyw bwynt unigol, yn darparu byffer tirweddau o 10m o leiaf. Bydd y bwnd tirweddau presennol yn cael ei gadw a'i wella, gan sgrinio i ryw raddau yn ystod y cyfnod adeiladu a'r cyfnod gweithredol cynnar a hyd nes y bydd y byffer tirweddau'n sefydlu, fel yr amlygir ar luniad BCP21-006-05-00 yn yr Amlen Gydsynio.	Mae dyluniad y cynllun wedi cael ei optimeiddio i sicrhau'r ôl troed lleiaf posibl sy'n angenrheidiol i gyflawni'r cynllun ar yr un pryd â chynnal llystyfiant a nodweddion tirwedd presennol. Fodd bynnag, o ganlyniad i faint yr adeiladau ac agosrwydd y cynllun i dderbynyddion preswyl cyfagos (~100m yn y man agosaf), mae'n hanfodol bod y bwnd llystyfiant presennol yn cael ei gadw a'i wella er mwyn lleihau effeithiau niweidiol arwyddocaol ar dderbynyddion gweledol. Ar hyd y ffin ddeheuol a gorllewinol rhwng y bwnd coed presennol a'r ardal ddatblygadwy, bydd angen plannu byffer 10m ychwanegol o leiaf i liniaru effeithiau gweledol niweidiol o'r dderbynyddion gweledol canlynol: • Eiddo ym mhen pellaf ffordd bengaead Penrhyn Geiriol (yn enwedig Bryn Mawr ac eiddo cyfagos i'r gogledd); • Eiddo ar hyd ochr ogledd-ddwyreiniol Hunters Chase (ardal breswyl ymhellach i'r de o Benrhyn Geiriol); • Pobl sy'n cerdded tua'r gogledd ar hyd Lôn Trefignath • Eiddo Tyddyn Uchaf • Eiddo yn Trearddur Mews Byddai'r byffer tirweddau yn union wrth ymyl y bwnd coed presennol o rywogaethau cymysg brodorol a chollddail/bythwyrdd, i ddarparu sgrin drwchus drwy gydol y flwyddyn. Bydd tirweddau'n lleihau'r effaith ar asedau treftadaeth hefyd o ganlyniad i newid o fewn eu lleoliadau, gan feddalau golwg y cyfleuster. Bydd hyn yn cyfrannu at leihau'r effaith ar Siambr Gladdu Trefignath i lefel nad yw'n arwyddocaol. Yn ogystal, bydd yn darparu buddion bioamrywiaeth yn sgil cynefin ymyl coetir.
B.9	Bioamrywiaeth	Bydd unrhyw arolygon, trwyddedau a datganiadau dull priodol sy'n angenrheidiol ar waith, pan fyddant yn ofynnol.	Mae mwyafrif yr ardal ddatblygadwy o fewn ardal o dir y tarfwyd arno ac a amddifadwyd o ecoleg. Fodd bynnag, gallai llystyfiant ffiniol a gadwyd, y brigiad caregog a chyrrff dŵr sydd wedi'u lleoli o fewn ffin y safle gynnal madfallod dŵr criog, ymlusgiaid, amffibiaid a dyfrgwn. Cwblhawyd arolygon madfallod dŵr criog rhwng mis Mai a mis Mehefin 2021, ac mae'r canlyniadau'n dangos ei bod yn debygol nad yw madfallod dŵr criog yn bresennol. Trwy ymgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Cynllunio Lleol, pennwyd bod rhaid i'r asesiad ecoleg SDO Cam C gynnwys asesiad priodol o effaith y cynllun ar y rhyogaethau uchod. Cytunwyd, mewn egwyddor, y byddai datganiadau dull addas a fyddai ar waith drwy gydol y cyfnod adeiladu (i ddiogelu'r brigiad, er enghraifft) yn ddigonol i beidio ag arwain at effeithiau arwyddocaol.
Gweithredu			

O.1	Defnyddiau a ganiateir o'r safle	Defnyddio tir ar gyfer lleoli, tramwyo a phrosesu cerbydau nwyddau sy'n dod i mewn, gan gynnwys archwiliadau anifeiliaid a phlanhigion, darparu cyfleusterau swyddfa a lles cysylltiedig ar gyfer staff a chludwyr (gan gynnwys lle parcio ar gyfer staff), adeiladu seilwaith sy'n angenrheidiol i gynnal a diogelu swyddogaethau'r safle o fewn y terfynau a osodir o fewn y Gorchymyn hwn, ar ran Llywodraeth Cymru fel Safle Rheoli Ffiniau.	I sicrhau bod y safle'n cael ei ddefnyddio fel cyfleuster BCP, gan gynnal archwiliadau ar gerbydau sy'n dod i mewn yn unig. Ni chynhaliwyd unrhyw asesiadau ar effeithiau defnyddio'r safle ar gyfer unrhyw weithgareddau eraill, felly nid oes sicrwydd na fyddai defnyddiau eraill yn arwain at effeithiau amgylcheddol arwyddocaol.
O.2	Targedau dylunio sŵn	Mae'n rhaid i'r sŵn o beiriannau ar y safle gael ei dylunio i fodloni meini prawf BS4142.	Bydd sŵn gweithredol y safle yn cynnwys sŵn o beiriannau sefydlog yn bennaf a allai gael ei glywed yn ystod y nos. Efallai bydd y derbynyddion agosaf yn destun lefelau sŵn a allai fod yn arwyddocaol os eir yn fwy na'r targedau dylunio. Gellid lliniaru effeithiau o sŵn peiriannau trwy eu lleoli cyn belled i ffwrdd â phosibl o dderbynyddion, sgrinio/amgáu peiriannau neu drwy osod terfynau ar ba bryd y gall peiriannau weithredu.
O.3	Unedau wedi'u Hoeri	Ni cheir rhedeg mwy na 22 o Unedau Cludo wedi'u Hoeri (TRUs) o'r baeau pŵer prif gyflenwad ar unrhyw adeg yn ystod y dydd a'r nos, ac mae'n rhaid i'r baeau hyn gael eu lleoli ar hyd ffin ogleddol / gogledd-ddwyrainiol y safle.	Mae canlyniadau cyfredol yr Asesiad o Effaith Sŵn yn cadarnhau, ar yr amod nad oes mwy na 22 o faeau plygio a bod y baeau wedi'u lleoli ar ochr arall yr adeiladau (gogledd / gogledd-ddwyrain), ni fyddai effaith arwyddocaol. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod yr adeiladau'n sgrinio'r sŵn. Pe byddai angen mwy o faeau, byddai angen ailasesu hyn.
O.4	Lliniaru sŵn	Bydd mesurau lliniaru sŵn yn cael eu darparu yn unol ag argymhellion yr asesiad sŵn [Asesiad o Effaith Sŵn BCP21-002-06-00] ar Luniad yr Amlen Gydsynio [Dogfen Rhif: BCP21-006-05-00].	Mae angen mesurau lliniaru sŵn i leihau'r posibilrwydd o effeithiau arwyddocaol ar dderbynyddion cyfagos i'r eithaf. Mae'r derbynyddion sensitif agosaf 100m i ffwrdd o ffin y safle ac maen nhw'n gallu gweld gweithrediadau'r safle yn uniongyrchol gan eu bod yn edrych i lawr ar y safle. Mae sgrinio ffynhonnell y sŵn ac atal cerbydau rhag aros yn segur yn enghreifftiau o'r mesurau lliniaru a allai fod yn angenrheidiol. Mae'r Asesiad o Effaith Sŵn wedi modelu rhwystr sŵn (5m o uchder a 240m o hyd ar hyn o bryd) i'w leoli wrth ymyl y ffordd fynediad. Mae hyn yn angenrheidiol i sgrinio'r lonydd nofio'n llwyr rhag y derbynyddion i'r de-orllewin a'r de-ddwyrain (R2 ac R3). Gallai'r uchder a'r lleoliad newid pan fydd dyluniad manwl y cynllun wedi cael ei gwblhau, i sicrhau bod sŵn yn cael ei wahanu i'r lefel sy'n ofynnol. Os bydd y tybiaethau a ddefnyddiwyd yn y model sŵn ar gyfer yr SDO Cam C yn newid, efallai bydd angen ailfodelu i sicrhau bod y mesurau lliniaru gofynnol ar waith i wneud yn siŵr nad oes unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol yn digwydd.
O.5	Rheoli gwastraff	1. Arwyneb anhydraidd i systemau draenio wedi'u selio neu ganiatâd i ryddhau i system ddraenio fudr. Rhyng-gipwyr ar gyfer ardaloedd lle y ceir dŵr wyneb ffo glân, heb ei halogi. 2. Citiau ymateb i ollyngiadau 3. Storio gwastraff trefol yn briodol 4. Storio gwastraff peryglus yn briodol 5. Storio gwastraff anifeiliaid yn briodol	Bydd gwastraff yn cael ei storio'n ddiogel ar y safle a'i symud ymaith yn ystod y dydd, bydd mesurau draenio penodol ar waith, a bydd ardaloedd yn cael eu cadw i ffwrdd oddi wrth fynediad cyhoeddus. 1. Mae'n ofynnol bod mesurau priodol ar gyfer atal llygredd ar waith i sicrhau nad yw'r safle'n effeithio ar yr amgylchedd e.e. tir neu ddŵr o ganlyniad i'r gweithrediadau ar y safle. Gallai hyn gynnwys rhyng-gipwyr ar gyfer ardaloedd lle y ceir dŵr wyneb ffo glân, heb ei halogi e.e. ardaloedd parcio. 2. Bydd citiau ymateb i ollyngiadau'n cael eu lleoli'n briodol fel y gellir glanhau gollyngiadau a allai fod yn beryglus yn gyflym e.e. gollyngiadau olew ac ati. 3. Bydd gwastraff yn cael ei storio'n briodol i sicrhau y cydymffurfir â gofynion dyletswydd gofal ac atal niwsans fel sbwriel, plâu ac arogleuon. 4. Bydd gwastraff peryglus yn cael ei storio'n briodol mewn ardaloedd wedi'u byndio sy'n ddigonol i gynnwys 110% o gyfaint cyfan gwastraff hylifol ac mewn ardal ddiogel dan orchudd. 5. Bydd gwastraff anifeiliaid yn cael ei storio'n briodol ar ardal ag arwyneb anhydraidd sydd â system ddraenio wedi'i selio (i atal llygredd o ddŵr ffo) i ffwrdd oddi wrth breswylwyr. Bydd angen symud y gwastraff hwn ymaith yn rheolaidd er mwyn lleihau niwsans o ganlyniad i arogleuon a phlâu a bydd angen glanhau'r ardal yn drylwyr hefyd.
O.6	Rheoli traffig	Bydd Cerbydau Nwyddau Trwm (HGVs) yn defnyddio Ffordd Feingefn Parc Cybi i fynd i mewn ac allan o'r safle.	Mae hyn yn ofynnol i reoli effaith symudiadau HGV ar ffyrdd ac amwynder lleol. Bydd strategaeth rheoli traffig ac arwyddion yn cael ei datblygu.
O.7	Cynnal a chadw planhigion yn y tymor hir	Bydd yr holl blanhigion tirweddu a'r bwnd tirweddu presennol yn cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd i sicrhau bod y stoc goed yn sefydlu'n llwyddiannus a byddant yn destun gwaith cynnal a chadw tymor hir i'w sefydlu (ar hyd oes y BCP) a rhaglen barhaus o weithrediadau rheoli coetir. Bydd unrhyw blanhigion sy'n methu yn cael eu hamnewid yn flynyddol a bydd y blanhigfa'n cael ei chadw'n rhydd rhag chwyn ac wedi'i diogelu a'i hamddiffyn gan ffens da byw sy'n cynnwys ffens atal cwningod.	Nid yw rhai ardaloedd o'r llystyfiant ffin presennol a gadwyd wedi llwyddo i sgrinio'n effeithiol. Mae'r planhigion wedi methu, o ganlyniad i gyflwr gwael y tir, amlygiad i'r tywydd a diffyg cynnal a chadw priodol i sicrhau eu llwyddiant. Er mwyn i'r asesiad tirwedd arwain at ddim effeithiau arwyddocaol ar dderbynyddion gweledol allweddol, mae'n rhaid i drefniant cynnal a chadw effeithiol fod ar waith i gefnogi casgliadau'r asesiad tirwedd. Os na fydd y planhigion yn cael eu cynnal a'u cadw, ni fyddant yn darparu'r sgrinio tymor hir sy'n hanfodol i sicrhau casgliadau'r asesiad tirwedd.
O.8	Gweithredu'r safle - dim aros yn segur	Bydd polisi sy'n atal cerbydau HGV rhag aros yn segur yn cael ei weithredu pan fydd cerbydau wedi'u parcio neu'n debygol o fod yn llonydd am fwy na 5 munud.	Dylid atal cerbydau rhag aros yn segur lle y bo'n bosibl er mwyn lleihau effeithiau sŵn ar dderbynyddion i'r eithaf. Bydd y dybiaeth hon yn angenrheidiol yn rhan o'r modelu a'r asesiad sŵn, yn enwedig gan fod y lonydd nofio wedi'u lleoli ~150m oddi wrth eiddo cyfagos. Gallai cerbydau sy'n aros yn segur, yn enwedig yn y nos, gael effaith niweidiol ar breswylwyr cyfagos. Mesur gweithredol cymharol syml yw hwn sydd wedi cael ei roi ar waith ar safleoedd EUX eraill. Mae mwyafrif yr ardaloedd lle y byddai HGVs yn symud wedi cael eu symud i ochr arall yr adeiladau, gan felly sgrinio sŵn ar gyfer preswylwyr cyfagos. Mae lleoliad / gosodiad y safle ar gyfer y lonydd nofio ar hyd y ffin ddeheuol wedi cael ei herio, ond ni ellid ei symud i alluogi llyf ymarferol drwy'r safle.
O.9	Mynediad Brys	Mae'n rhaid defnyddio glaswellt cyfnerthedig hydraidd ar gyfer y ffordd mynediad brys.	Mae'r ardal yng nghornel ogledd-orllewinol y safle yn arbennig o sensitif i gyflwyno llawr caled o ganlyniad i agosrwydd y Siambr Gladdu a llinell weld uniongyrchol rhwng y siambr a'r ardal hon, nad yw wedi'i sgrinio gan y planhigion o amgylch y siambr. Mae effeithiau'n bosibl ar y ased o ganlyniad i newid i'w leoliad yn y gornel pen uchaf honno o'r safle. Felly, mae'r dyluniad presennol wedi cael ei addasu i leihau seilwaith yn yr ardal hon, lle y gellir ei weld o'r Siambr Gladdu. Byddai'r ardal gwarantyn yn cael ei sgrinio gan ddefnyddio ffens a byddai byffer yn cael ei ddarparu trwy blanhigion tirweddu, byddai glaswellt cyfnerthedig hydraidd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y llwybr mynediad brys, a byddai'r holl adeiladu'n 5m ar y mwyafrif. Mae'n hanfodol bod glaswellt cyfnerthedig hydraidd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y ffordd frys er mwyn cefnogi casgliadau'r asesiad treftadaeth sy'n datgan nad yw'r effeithiau'n arwyddocaol.